OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1609

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

## RHAN 2 E+W

## Lefelau o gyfyngiadau ar ymgynnull, ar deithio ac ar ddefnyddio mangreoedd busnesau a gwasanaethau

**Lefelau o gyfyngiadau E+W**

**4.**—(1) Mae Atodlenni 1 i 4 yn nodi cyfyngiadau a gofynion a all fod yn gymwys mewn ardal mewn perthynas ag—

(a) cynulliadau;

(b) trefnu digwyddiadau;

F1(c) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(d) defnyddio mangreoedd busnesau neu wasanaethau penodedig sydd fel arfer yn agored i'r cyhoedd.

(2) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 1 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 1.

(3) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 2 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 2.

(4) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 3 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3.

(5) Mae'r cyfyngiadau a'r gofynion a nodir yn Atodlen 4 yn gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 4.

(6) Mae Atodlen 5 yn nodi pa un o Atodlenni 1 i 4 sy'n gymwys i ardal drwy bennu lefel ar gyfer yr ardal honno.

[F2(6A) Ond, mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3, am y cyfnod sy'n dod i ben ar ddiwedd y diwrnod ar [F32 Mai] 2021, mae Atodlen 3 i'w thrin fel pe bai Atodlen 3A wedi ei rhoi yn ei lle.

(6B) Ac mae Atodlen 5 yn nodi addasiadau dros dro canlyniadol sy'n gymwys mewn perthynas ag ardal Lefel Rhybudd 3 am y cyfnod a bennir ym mharagraff (6A).]

F4(7) . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

(8) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) "ardal Lefel Rhybudd 1" yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 1;

(b) "ardal Lefel Rhybudd 2" yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo'r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 2;

(c) “ardal Lefel Rhybudd 3” yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo’r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 3;

(d) “ardal Lefel Rhybudd 4” yw ardal a bennir yn y tabl yn Atodlen 5, pan fo’r tabl yn nodi ei bod yn ardal Lefel Rhybudd 4.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 4(1)(c) wedi ei hepgor (26.4.2021 yn union cyn dechrau'r diwrnod) yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(2), **2(2)(a)**

**F2** Rhl. 4(6A)(6B) wedi ei amnewid ar gyfer rhl. 4(6A) (27.3.2021 yn union cyn dechrau'r diwrnod) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2021 (O.S. 2021/413), rhlau. 1(2), **2(2)**

**F3** Geiriau yn rhl. 4(6A) wedi eu hamnewid (26.4.2021 yn union cyn dechrau'r diwrnod) gan Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(2), **2(2)(b)**

**F4** Rhl. 4(7) wedi ei hepgor (9.1.2021 am 4.00 a.m.) yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/20), rhlau. 1(2), **8(2)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 18/04/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.